

Cyngor Sir Caerfyrddin Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd a enwir isod am y cyfnod o fis Mai 2015 tan fis Mai 2016 (Blwyddyn y Cyngor). Fe'i darperir er gwybodaeth i etholwyr, ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad yw barn y Cynghorydd ac nid yw'n adlewyrchu barn Cyngor Sir Caerfyrddin o reidrwydd.

Y Cynghorydd: Pam Palmer	Adran Etholiadol: Abergwili
---------------------------------	------------------------------------

Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau		
Pwyllgorau'r Cyngor	Cofnod Presenoldeb	
	Nifer	Yn bresennol
Y Cyngor Sir	14	14
Y Bwrdd Gweithredol	15	14
Pwyllgor Penodi A – Cyfarwyddwyr (Is-gadeirydd)	2	2
Pwyllgor Penodi B - Penaethiaid Gwasanaeth (Cadeirydd)	5	3
Gweithgor Trawsbleidiol Adolygu'r Cyfansoddiad	2	2
Y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd		3*
Y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau		3*
*Yn bresennol fel sylwedydd		

Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth
<p>Diben yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod ichi am rai o'r materion yr wyf wedi ymdrin â nhw ar eich rhan yn ystod 2015/16. Mae cyfran uchel o'm gwaith yn ymwneud â helpu trigolion i ddatrys eu problemau a'u pryderon personol ac felly ni fydd hynny'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad hwn. Rwyf wedi mynd i'r afael â materion lleol, wedi ymgynghori â'r trigolion dan sylw ac wedi ceisio sicrhau canlyniadau boddhaol.</p> <p>Rwyf wedi cael y ffrainc o gynrychioli Ward Abergwili am y 29 mlynedd diwethaf, yn gyntaf fel eich cynghorydd dosbarth ac yna fel eich Cynghorydd Sir am yr 20 mlynedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn rwyf wedi gweithio'n ddiwyd i ddatrys problemau yn yr ardal ac i wella gwasanaethau a chyfleusterau yn y ward. Rwyf yn ymateb i broblemau yn fy "mhatsyn" i ar unwaith os bydd problem frys yn codi, ac rwyf ar gael bob awr o'r dydd a'r nos i roi cyngor neu i helpu ynghylch pryderon y trigolion. Pan gefais fy ethol gyntaf ceisiais gynnal cymorthfeydd yn rheolaidd a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ond doedd neb yn dod iddynt. Roedd yn amlwg ei bod yn well gan bobl gysylltu â mi'n bersonol, fel arfer dros y ffôn ac yn ddiweddar drwy e-bost. Fel canlyniad sylweddolais mai'r ffordd orau i ymdrin â phroblemau oedd trwy ymweld â'r trigolion yn eu cartrefi nhw i weld beth oedd y broblem a'i ddatrys. Mae'r rhyngwyd hefyd yn dechrau chwarae rhan gynyddol o ran rhoi gwybodaeth i'm trigolion mewn modd amserol. Byddaf yn parhau i ymweld â thrigolion i weld eu problemau'n uniongyrchol os dymunant. Mae'r ffordd hon o ymdrin â phryderon trigolion wedi gweithio'n dda dros y 29 mlynedd diwethaf ac er bod rhai aelodau'n cynnal cymorthfeydd llwyddiannus rwyf yn argyhoeddedig bod trigolion fy ward i'n gwerthfawrogi'r</p>

dull mwy personol. Hefyd rwyf ar gael i helpu (gyda chaniatâd yr Aelod Lleol) gydag unrhyw broblemau sy'n effeithio ar unrhyw un o drigolion Sir Gaerfyrddin.

Rwyf wedi parhau i ymgyrchu i helpu trigolion i hawlio'r holl fudd-daliadau lles y maent yn gymwys i'w cael. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn rwyf wedi cynnal ymgyrch bersonol yn fy ward i sicrhau bod y trigolion yn hawlio budd-daliadau - yn enwedig y Lwfans Gweini. Mae'n syndod faint o bobl nad ydynt yn gwybod am y budd-daliadau y gallent fod yn gymwys i'w cael ac maent yn barod iawn i wneud cais am y rhain pan fyddaf i'n egluro iddynt y gallent yn wir lwyddo. Rwy'n falch o roi gwybod fod y rhan fwyaf o'r achosion hyn wedi llwyddo a bod yr arian a gânt yn ychwanegiad derbynol i'w hincwm wythnosol. Mae hyn nid yn unig yn llesol i'r unigolion ond hefyd i'r busnesau lleol. Gan fod gan y trigolion ychydig mwy o arian, maent yn gwario'r arian hwnnw'n lleol sy'n helpu'r busnesau lleol i barhau.

Gallaf eich sicrhau o'm hymrwymiad parhaus i gynrychioli Ward Abergwili a'i thrigolion hyd eithaf fy ngallu a, gobeithio, er budd pawb.

Cynllunio:

Mae cynllunio'n dal i fod yn broblem yn yr ardal. Rwyf wedi cydgysylltu â thrigolion a Chynghorau Cymuned a Chynghorwyr ynghylch ceisiadau cynllunio yn eu hardaloedd priodol ac wedi cefnogi eu barn trwy gydol y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn hon bu llawer o bryderon ynghylch effaith weledol gronol datblygiadau tyrbinau gwynt bach yn yr ardal. Roedd llawer o drigolion yn anfodlon iawn bod nifer y tyrbinau gwynt hyn yn cynyddu a chefnogais y gymuned leol o ran eu gwrthwynebiadau. Trefnais gyfarfod cyhoeddus a rhoddwyd cyfle i'r trigolion leisio eu barn ar y datblygiad hwn.

Rwyf wedi bod yn ymwneud llawer â mater y llwybr cysylltedd o'r Fferm Wynt yn Llanllwni lawr i'r is-orsaf yn Llandyfaelog. Bûm yn cynrychioli'r ardal mewn sawl cyfarfod â Western Power ynghylch y llwybr hwn y penderfynwyd yn ei gylch ar ôl rhoi ystyriaeth i lawer o faterion. Ar ôl cyhoeddi'r llwybr a ffafir aethant ati i gynnal arddangosfa gyhoeddus. Yr hyn sy'n cael ei ffafrio ganddynt hwy yw dilyn llwybr yr A485 yn fras, gan fynd o amgylch pentref Peniel. Roeddwn wedi sicrhau bod y trigolion yr effeithir arnynt yn cael y wybodaeth am yr ymgynghoriad fel y gallent hwy roi eu sylwadau a fyddai'n cyfrannu i'r broses ymgynghori. Codais ddadl â Western Power oherwydd er bod yr effaith fwyaf ar ardal Peniel ni chynhaliwyd y cyfarfod a'r arddangosfa ym Mheniel. Fel canlyniad i'm mhryderon, cafodd yr ymgynghoriad diwethaf ei gynnal yn y Neuadd Gymunedol ym Mheniel ac roedd llawer yn bresennol yno. Roedd y cyfarfod i fod i ddod i ben am 8.00pm ond gan fod cynifer yn bresennol, ni ddaeth i ben tan ymhell ar ôl 9.00pm. Mae cefnogaeth gyhoeddus unfrydol i osod yr holl geblau o dan ddaear. Rwyf wedi ymgyrchu'n frwd dros gael yr holl geblau dan ddaear ar hyd y llinell gysylltedd yn gyfan drwy'r ardal ac yn enwedig mewn ardaloedd sensitif megis Abergwili a Phont-ar-sais, ers dechrau'r broses gynllunio. Y penderfyniad a gyhoeddwyd nifer o fisoedd yn ôl oedd y byddai'r ceblau'n cael eu rhoi dan ddaear o gwmpas Abergwili ond y byddai'r holl linellau cysylltedd eraill yn cael eu gosod uwchben. Y rheswm dros roi'r ceblau dan ddaear o gwmpas Abergwili oedd eu hagosatrydd at gae glanio'r hofrennydd a'r materion diogelwch amlwg. Rwy'n parhau i gefnogi gosod yr holl geblau dan ddaear drwy'r ardal ac wedi manteisio ar bob cyfle i ymgyrchu dros hyn.

Ymatebais i'r ymgynghoriad ynghylch y materion traffig sy'n gysylltiedig â chludo rhannau mawr o dyrbinau ar lorïau araf mawr iawn a'r effaith y caiff hwn ar lif traffig ar yr A485.

Rwy'n disgwyl y bydd fy sylwadau yn cael sylw i helpu i sicrhau bod cyn lleied o oedi â phosibl i'r traffig sy'n teithio ar brif wythïen ffordd i Ogledd Cymru.

Y Gwasanaethau Stryd:

Un o'r materion sy'n achosi pryder mawr i'r holl drigolion yw goryrru a diogelwch ffyrdd yn gyffredinol yn ymwneud â'r traffig sy'n teithio drwy'r ardal. Mae pryderon mawr ynghylch Heol Fawr, Abergwili, ffordd osgoi Abergwili a'r A485. Rwy'n trafod y mater hwn yn rheolaidd â Heddlu Dyfed-Powys ac Is-adran Priffyrdd y Sir. Mae'r arwyddion cyflymder ym Mheniel wedi helpu i arafu cerbydau sy'n mynd drwy'r pentref ond yn ddiweddar mae nifer y gyrwyr sy'n goryrru drwy'r pentref wedi cynyddu. Rwyf wedi gofyn i'r heddlu ymweld â'r ardal i orfordi'r terfynau cyflymder.

Cafwyd llawer o gwynion am gyflwr y ffyrdd yn yr ardal ac er bod rhai ffyrdd wedi cael eu hatgyweirio mae rhai eraill wedi cael wyneb newydd. Mae rhai materion y tu hwnt i reolaeth y Cyngor Sir, ac yn gyfrifoldeb yr Asiantaeth Cefnffyrdd. Rwyf yn sicrhau bod yr holl faterion sy'n ymwneud â chefnffyrdd yn cael eu codi ar unwaith gyda'r asiantaeth gyfrifol ac yn mynd ar drywydd cwynion i sicrhau nad ydynt yn cael eu anghofio.

Mae wynebau ffyrdd wedi bod yn anniogel ar nifer o adegau oherwydd bod biswail ar y ffyrdd pan fydd ffermwyr yn gwasgaru dom. Ym mhob achos bûm yn gysylltiedig ag ef mae ffyrdd wedi cael eu hysgubo a'u golchi. Mae ffyrdd llithrig oherwydd dom nid yn unig yn beth diflas i drigolion sy'n gorfod gyrru arnynt a throchi eu ceir ond mae hefyd yn berygl i draffig ffyrdd ac mae angen rhoi gwybod am y mater cyn gynted â phosibl.

Mae nifer yr achosion o beidio â chasglu sbwriel, sydd wedi bod yn broblem yn y gorffennol, wedi gostwng yn sylweddol, ac rwy'n gobeithio na fydd y problemau hyn yn digwydd eto pan fydd y diwrnodau casglu'n newid ym mis Hydref. Bydd yr holl drigolion yn cael gwybod am y newidiadau i'w casgliadau sbwriel ac rwy'n hyderus y bydd y newidiadau'n digwydd heb ormod o broblemau. Fodd bynnag os oes problem cysylltwch â mi.

Rwyf wedi trefnu bod cynwysyddion yn cael eu rhoi mewn mannau casglu a ddefnyddir gan grwpiau o eiddo gwledig. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio gan y trigolion ac maent yn helpu i atal adar a llwynogod rhag rhwygo bagiau a chwalu sbwriel ar hyd y lle.

Cafwyd llawer o gwynion am faw cŵn yn yr ardal. Rhoddwyd gwybod am hyn ynghyd â'r lleoliadau perthnasol ond, er bod ein tîm gorfodi wedi gweithredu'n gyflym, yn anffodus nid oes neb hyd yma wedi cael dirwy am beidio â chodi baw eu cŵn yn fy ward i. Fodd bynnag, mae timau gorfodi'n parhau i fod yn rhagweithiol iawn ac os bydd problemau'n codi gofynnir ichi roi gwybod imi ar unwaith.

Trafnidiaeth:

Rwyf wedi ceisio sicrhau bod y toriad yn y cyllid trafndiaeth wedi cael cyn lleied â phosibl o effaith ar y gwasanaethau bws ar yr A485. Mae hwn yn llwybr pwysig i gymudwyr ac mae'n hanfodol cadw'r llwybr hwn er y toriad yn y grant trafndiaeth gyhoeddus.

Mae'r cysgodfan bysiau a'r gilfan fysiau newydd ym Mheniel wedi bod yn llwyddiant mawr, ond er bod digonedd o le nid yw'n anarferol gweld y rhan fwyaf o'r plant ysgol yn sefyll y tu allan yn y glaw trwm heb gotiau amdanynt!!!

Mae arwyddion rhybuddio wedi'u gosod erbyn hyn ac maent yn cael effaith ar y traffig er bod cerbydau'n dal i yrru'n rhy gyflym ar yr A485 ac mae'r llwybr hwn yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Bartneriaeth Camerâu Diogelwch a'r Heddlu.

Addysg a Phlant:

Rwyf wedi cefnogi digwyddiadau a gweithgareddau Ysgolion Abergwili a Pheniel erioed ac wedi eu helpu'n ariannol. Rwyf bob amser yn barod i gyfrannu gwobrau raffl ac ati. Ar hyn o bryd rwy'n cydweithio â grŵp sy'n gwneud cais am gyllid o Gronfa Treftadaeth y Loteri i adfer gardd Amgueddfa Abergwili a'r coetir cyfagos. Mae hon yn gyrchfan bwysig i ymwelwyr ac i bobl leol. Hefyd, mae'r Amgueddfa yn gyfleuster addysgol pwysig ar gyfer ysgolion lleol ac yn enwedig Ysgol Abergwili. Bydd y dystiolaeth bod yr ysgol yn defnyddio'r cyfleuster yn chwarae rhan allweddol yn y broses o wneud cais am grant. Rwyf ar gael ac yn barod i dderbyn galwadau ffôn pan fydd y naill ysgol neu'r llall yn fy ardal angen cymorth, cyngor neu gefnogaeth.

Diogelu'r Cyhoedd Iechyd yr Amgylchedd:

Mae tipio anghyfreithlon yn broblem gynyddol ac mae'n bwysig datrys hyn a'i symud cyn gynted â phosibl cyn i'r lle ddechrau cael ei gydnabod fel man hwylus i waredu sbwriel. Rwy'n sicrhau bod Swyddogion Gorfodaeth yn cael gwybod am y broblem ar unwaith a'r rhan fwyaf o'r amser byddant yn ymweld o fewn 24 awr ac yn datrys y broblem.

Rwy'n trafod â Swyddogion ynghylch dynodi "Ardaloedd Dim Galw heb Wahoddiad" ledled y Ward ac yn gobeithio y bydd rhai ardaloedd yn cael y dynodiad hwn yn ystod y flwyddyn.

Tai:

Mae'r gwaith o adnewyddu tai Cyngor yn mynd rhagddo'n unol â'r amserlen mewn ymgynghoriad â'r cynllun a gymeradwywyd gan y Gymdeithas Tenantiaid fel rhan o Gynllun Safon Tai Sir Gaerfyrddin. Mae'r holl denantiaid yr wyf fi wedi siarad â nhw yn falch iawn o'r gwaith adnewyddu a gwblhawyd.

Gweithgareddau'r Bwrdd Gweithredol:

Yn ogystal â'm cyfrifoldebau fel Cynghorydd Sir Lleol, rwyf hefyd yn aelod o Fwrdd Gweithredol y Cyngor. Fi yw Arweinydd y Grŵp Annibynnol a fi hefyd yw un o ddau Ddirprwy Arweinydd y Cyngor. Mae gennyf gyfrifoldeb penodol dros y canlynol:

Rheolwr Busnes y Cyngor; Hyrwyddwr Cymunedol; Cyswllt â'r Heddlu; Diogelwch Cymunedol; Cynllunio Cymunedol; Hyrwyddwr Gwrth-dlodi; Cynaliadwyedd; Bioamrywiaeth a Llysgennad Ieuencid Rwyf hefyd yn aelod arweiniol ar gyfer adsefydlu'r ffoaduriaid o Syria y mae'r Cyngor wedi cytuno'n unfrydol i'w croesawu i'n sir.

Er bod fy nghyfrifoldebau fel aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn fy nghadw'n brysur gallaf eich sicrhau bod y materion yn fy "mhatsyn" yn cael blaenoriaeth bob amser ac yr ymdrinnir â nhw mewn modd amserol a phriodol.

Adran 3: Cyrff Llywodraethu Ysgolion

<i>Rhestr o Gyrrff Llywodraethu Ysgolion</i>	<i>Cofnod Presenoldeb</i>
Ysgol Gynradd Gymunedol Parc Waundew	Rwy'n mynychu cyfarfodydd pryd bynnag y gellir ond rwyf ar alwad bob amser, ar fyr rybudd, i ymweld ac i ymdrin ag unrhyw broblemau pan fo angen

Adran 4: Cynrychiolaeth Cyrff Allanol	
<i>Rhestr o gyrff allanol</i>	<i>Cofnod Presenoldeb</i>
Cadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol	04.06.15; 30.09.15; 04.03.15
Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	28.11.15, 27.02.16
Fforwm Gwledig CLILC	06.06.15; 20.03.16 – Cyflwynais fy ymddiheuriad ar gyfer y cyfarfod ar 20.03.16

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill
<p>Cymorthfeydd Cynghorydd Lleol Nid wyf yn cynnal cymorthfeydd ac yn lle hynny'n ffafrio ymweld â thrigolion yn eu cartrefi i drafod eu materion personol.</p> <p>Cyngor Cymuned Llanllawddog Rwyf yn aelod o Gyngor Cymuned Llanllawddog ac yn mynychu'r cyfarfodydd yn rheolaidd, ac rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Abergwili. Rwyf yn cyflwyno adroddiadau i'r ddau Gyngor ar faterion sy'n ymwneud â'r Cyngor Sir.</p> <p>Rwyf yn ymweld â Chlwb Ieuenctid Abergwili a'r Clwb Hamdden pan fyddant angen fy nghymorth neu gefnogaeth.</p> <p>Fi yw Cadeirydd Cymdeithas Gymunedol Peniel ac rwy'n eu cefnogi yn eu holl weithgareddau.</p> <p>Rwy'n cynghori grwpiau gwirfoddol a busnesau ynghylch y cymorth grantiau sydd ar gael ac yn helpu â'r ceisiadau am y cymorth hwn.</p>

Llofnodwyd gan y Cynghorydd: Pam Palmer	Dyddiad: 16/08/16
--	--------------------------